

Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru
Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020
Parc Cathays, Caerdydd (gyda chyswilt fideogynadleda â
Llandudno)

Yn bresennol

Steph	Howarth	SH	Llywodraeth Cymru (LIC) – Cadeirydd
Richard	Cardwell	RC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Lee	Clarke	LC	Cyngor Dinas Caerdydd
Janine	Edwards	JE	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Skype
James	Harris	JH	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Leanne	John	LJ	Dinas a Sir Abertawe
Helen	Jones	HJ	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Nia	Jones	NJ	Llywodraeth Cymru (LIC)
Steve	King	SK	Dinas a Sir Abertawe
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru (LIC)
Richard	Leyshon	RL	Data Cymru
Geraint	Morgan	GM	Cyngor Sir Powys
Siôn Aled	Owen	SAO	Geirda
Jonathan	Radcliffe	JR	Chwaraeon Cymru
Nita	Sparkes	NS	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT)
Rob	Starr	RS	Cyngor Sir Ceredigion
Andrew	Stephens	AS	Uned Ddata Cymru
Sam	Sullivan	SS	Data Cymru
Caitlin	Theodorou	CT	Cyngor Sir Ceredigion
Sean	Gwyn	SW	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
Alwyn	Williams	AW	Cyngor Sir Ynys Môn – Skype
Nia	Wyn Jones	NWJ	Cyngor Gwynedd – Skype
Lowri	Wyn Morton	LWM	Cyngor Gwynedd – Skype

Cymerwyr Nodiadau

Yasmin	Parekh	YP	Llywodraeth Cymru (LIC)
Dylan	Stocker	DS	Llywodraeth Cymru (LIC)
Niamh	Yale-Helms	NYH	Llywodraeth Cymru (LIC)

Siaradwyr

Catherine	Bremner	CB	Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA)
Scott	Clifford	SC	Llywodraeth Cymru (LIC)
Chris	Davies	CD	Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA)
James	Harris	JH	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Nia	Jones	NJ	Llywodraeth Cymru (LIC)
John	Morris	JM	Llywodraeth Cymru (LIC)
Nita	Sparkes	NS	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT)
Neil	Townsend	NT	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
Sean	Gwyn	SW	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Ymddiheuriadau

Lucy	Butler	Cyngor Bro Morgannwg
Chris	Clarke	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Fiona	Clay-Poole	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Vicki	Doyle	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Paul	Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
William	Miles	Cyngor Sir Fynwy
Rhys	Powell	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sergio	Recio	Estyn
Lesley	Rees	Cyngor Sir Caerfyrddin
Andy	Wilson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
	<p>Agorodd SH y cyfarfod a chroesawodd bawb, gan gynnwys y rhai a oedd yn defnyddio'r cyswllt fideogynadledda o Gyffordd Llandudno.</p> <p>Nid oedd Glyn Jones yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiad blaenorol yn Llundain.</p> <p>Gwahoddodd SH y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y cyfarfod i siarad yn Gymraeg neu Saesneg, am fod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol yng Nghaerdydd.</p>	
2	Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am bwyntiau gweithredu	
	<p>Cytunwyd ar nodyn y cyfarfod diwethaf. Nid oedd JE yn gallu dod o hyd i gofnodion y cyfarfod diwethaf ar-lein.</p> <p>Diweddariad ar Bwyntiau Gweithredu'r cyfarfod diwethaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod Pwynt Gweithredu 2 wedi'i gwblhau, ond cyfeiriodd SK at y ffaith nad oedd yr ymateb wedi'i weld. Nododd JM na fydd enwau answyddogol yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cael eu mabwysiadu gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd JM yn cadarnhau nad yw'r sefyllfa hon wedi newid ac yn ailddosbarthu ymateb gwreiddiol y SYG. O ran Pwynt Gweithredu 7, dosbarthodd GJ ddolen i aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ond 	<p>Pwynt gweithredu: Cofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i'w hanfon drwy e-bost at JE.</p> <p>Pwynt Gweithredu: JM i gadarnhau nad yw safbwynt y SYG ar y rhestr o enwau answyddogol yr</p>

	<p>gofynnodd iddynt aros tan y cyfarfod nesaf cyn rhoi eu hadborth oherwydd ei absenoldeb.</p> <p>Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau eraill ar y Pwyntiau Gweithredu.</p>	<p>Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol wedi newid ac ailddosbarthu'r ymateb.</p>
3	Adolygiad o'r papurau gwybodaeth	
	<p>Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru gan SH:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm Ystadegau Economaidd yn ceisio adborth gan ddefnyddwyr eu hamcangyfrifon o Gynnyrch Domestig Gros er mwyn nodi a oes angen llunio Dangosyddion Allbynnau Tymor Byr ac amcangyfrifon o Gynnyrch Domestig Gros. • Disgwylir i'r amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai yn seiliedig ar ddata 2018 gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2020. • Cyhoeddwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 ym mis Tachwedd 2019. <p>Diweddariad ar ddemograffeg gan JM:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd blog wedi'i gyhoeddi er mwyn nodi'r rhesymau pam roedd Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol ac Amcanestyniadau Aelwydydd Cymru yn seiliedig ar 2017 wedi'u gohirio (yn wreiddiol roedd disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi ar 31 Hydref 2019). • Bellach, disgwylir i'r amcanestyniadau gael eu cyhoeddi ar 27 Chwefror 2020 a byddant yn seiliedig ar 2018. Ni fydd datganiad ystadegol hirfaith oherwydd cyfyngiadau amser – rhoddir rhagor o fanylion mewn blog sydd i'w cyhoeddi dros yr ychydig wythnosau nesaf. Cyhoeddir amrywiadau hefyd ar 27 Chwefror. • Caiff pob ALI ei wahodd i ddigwyddiad Holi ac Ateb ymhen pythefnos ar gyfer yr Amcanestyniadau Poblogaeth. • Gofynnodd LWM ai dim ond yng Nghaerdydd y byddai digwyddiad Holi ac Ateb yn cael ei gynnal, ac eglurodd JM y byddai digwyddiad Holi ac Ateb yn cael ei gynnal ar ffurf rithwir petai teithio i Gaerdydd yn afrealistig oherwydd y rhybudd byr. • Nododd JE y dylai unrhyw un a fyddai'n cymryd rhan yn y digwyddiad Holi ac Ateb wneud rhywfaint o ymchwil ymlaen llaw i dueddiadau o ran y boblogaeth yn y dyfodol, ac awgrymodd JM y dylid edrych ar Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol blaenorol y SYG, sy'n rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer polisi. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae tueddiadau yn y dyfodol yn cynnwys lleihad yn nhwff y boblogaeth am y tro cyntaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod y boblogaeth o oedran gweithio yn debygol o leihau. • Pwysleisiodd SK bwysigrwydd Blog y Prif Ystadegydd o ran esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad i ohirio cyhoeddi'r amcanestyniadau poblogaeth a'r newidiadau yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd i'w llunio. • Awgrymodd SH y gallai trafodaeth fanylach ynghylch amcanestyniadau poblogaeth fod yn eitem ddefnyddiol ar yr agenda yn y dyfodol, ond awgrymodd AS y gallai symposiwm ar boblogaeth fod yn opsiwn gwell, am y gellid trafod y pwnc yn fanylach na phe bai'n eitem unigol ar agenda Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Cynigiodd AS helpu i drefnu hyn am y byddai'n fuddiol pe bai'n digwydd cyn i bawb ddechrau canolbwyntio ar y Cyfrifiad. Nododd SL fod y pwnc hefyd yn bwysig ar gyfer trafodaethau asesu llesiant. <p>Diweddariad Data Cymru (DC) gan AS:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir i Proffilio Lleodedd gael ei ddiweddarau â data newydd a swyddogaethau eraill ar 24 Chwefror 2020. • Mae DC wedi llenwi dwy swydd ystadegol newydd yn ddiweddar ac mae'r ddau unigolyn a benodwyd yn cymryd rhan yn eu cyfarfod cyntaf o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (SS ac RL). • Mae manylion pellach am gynhadledd LARIA 2020 wedi'u cyhoeddi; fe'i cynhelir ym Manceinion ar 2 a 3 Mehefin. • Mae DC yn datblygu ei Hyb Data Agored, sef llwyfan y mae'n bosibl y bydd gan ALLau ddiddordeb ynddo. • Gofynnodd JR ym mha ffordd y bydd yr Hyb yn wahanol i Fap Data Cymru. Nododd AS fod DC yn gweithio'n agos gyda LIC er mwyn sicrhau bod yr Hyb yn ategu Map Data Cymru, ond nad yw data seiliedig ar ddaearyddiaeth yn un o nodau'r Hyb. Awgrymodd y gallai cyflwyniad yn y dyfodol ochr yn ochr â chydweithwyr o LIC sy'n ymwneud â Map Data Cymru helpu i gyfleu'r gwahaniaethau hyn. • Tynnodd AS sylw at Borth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol newydd DC i Gymru (a allai fod yn adnodd pwysig ar gyfer adolygu amcanestyniadau poblogaeth a dyraniadau adnoddau) a rhai enghreifftiau o brosiectau ymchwil gymdeithasol diweddar y mae'r sefydliad wedi bod yn rhan ohonynt. • Mae 'Data Basics: Introduction to Data', sef cwrs sydd wedi'i anelu at bawb sy'n gweithio mewn ALL ac sydd ag 	<p>Pwynt Gweithredu: JM i ystyried y posibilrwydd o drefnu symposiwm ar boblogaeth er mwyn parhau â'r drafodaeth ynghylch amcanestyniadau poblogaeth, gyda chymorth DataCymru.</p> <p>Pwynt Gweithredu: Cyflwyniad rhwng DC a LIC ar y gwahaniaethau rhwng Hyb Data Agored DC a Map Data Cymru LIC i'w roi mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Pwynt Gweithredu: Y wybodaeth ddiweddaraf</p>
--	---	---

<p>unrhyw lefel o wybodaeth flaenorol, wedi'i dreialu ym Mhowys a De Cymru. Bwriedir i'r cwrs gyflwyno'r gwahanol ffynonellau data sydd ar gael i ALLau a sut y gellir defnyddio'r rhain yn effeithiol. Mae p'un a gaiff y cwrs ei gyflwyno ledled Cymru yn amodol ar drafodaethau terfynol ynghylch cyllid. Mae'n debygol y cynhelir un cynllun peilot arall, a nododd LWM y byddai Gwynedd yn fodlon bod yn rhan ohono.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd JE fod LIC yn cynnal digwyddiadau Data Agored yn Ne Cymru ond nid yng Ngogledd Cymru. • Gofynnodd SK beth fyddai'n digwydd i Daffodil Cymru ar ôl i'r Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru gael ei ddatblygu. Eglurodd AS fod Daffodil wedi'i drosglwyddo o LIC i Gofal Cymdeithasol Cymru sydd, yn ei dro, wedi comisiynu DC i'w ailddatblygu. Gofynnodd SK am ddiweddariad ar hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ychwanegodd JE nad oedd Daffodil Cymru wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'w hawdurdod lleol yn y gorffennol ac y byddai'r gwaith o'i ailddatblygu, gobeithio, yn canolbwyntio ar dargedu anghenion defnyddwyr. <p>Y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfrifiad gan NT (dros y ffôn):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd ymarfer y Cyfrifiad ar 13 Hydref 2019 mewn pedwar lleoliad ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys Ceredigion. • Dewiswyd Ceredigion er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y dylid cynnal y Cyfrifiad mewn ardal wledig, ddwyieithog lle mae gan lawer o bobl ail gartrefi. • Ar wahân i raddfa, credir bod yr ymarfer yn debyg iawn i Gyfrifiad 2021. • Roedd gan yr ymarfer gyfradd dychwelyd o 31 y cant. Fodd bynnag, ymarfer gwirfoddol oedd hwn. Ceredigion oedd â'r gyfradd dychwelyd uchaf ar gyfer ffurflenni papur, ond roedd hyn i'w ddisgwyl am fod mwy o gysylltiad cychwynnol wedi'i wneud gan ddefnyddio ffurflenni papur oherwydd natur wledig yr ardal. • Ar gyfer Cyfrifiad 2021, rhoddir ffurflenni papur fel cysylltiad cyntaf i ardaloedd lle mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r rhyngwyd yn fach. • Mae ymarfer y Cyfrifiad wedi'i ddadansoddi a chaiff adroddiad gwerthuso ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn. • Mae'r SYG yn cynnal ymgynghoriad daearyddol ac yn ymweld â gwahanol ardaloedd er mwyn trafod y ffordd orau o sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y Cyfrifiad. • Nododd NT fod y SYG wedi cael llawer o gymorth gan Gyngor Sir Ceredigion wrth gynnal ymarfer y Cyfrifiad, a'i 	<p>am y prosiect i ailddatblygu Daffodil i'w rhoi mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Pwynt Gweithredu: NT i rannu awgrymiadau ynglŷn ag arferion da ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn seiliedig ar ganfyddiadau ymarfer y Cyfrifiad. I'w ystyried ar gyfer eitem ar yr agenda yn y dyfodol.</p> <p>Pwynt Gweithredu: NT i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Cyswllt Ystadegol</p>
---	--

	<p>fod yn fodlon rhannu awgrymiadau â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ynglŷn ag arferion da ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd RL a ddisgwylir i gyfran y ffurflenni a ddychwelir ar-lein newid pan fydd cymryd rhan yn y Cyfrifiad yn orfodol. Atebodd NT y gallai'r SYG ddisgwyl i gyfran uwch o ffurflenni papur gael eu cyflwyno ar gyfer Cyfrifiad llawn 2021. • Gofynnodd LWM am newidiadau i ffiniau'r wardiau a ddefnyddir ar gyfer allbwn y Cyfrifiad. Atebodd NT y bydd y SYG yn ymgynghori ar y mater hwn yn fuan a bod yr union ddyddiadau i'w cadarnhau. Bydd y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru yn trafod y mater hefyd. Bydd NT yn rhoi manylion am y daearyddiaethau y disgwylir i allbynnau'r Cyfrifiad gael eu cyhoeddi ar eu cyfer a phryd. • Gofynnodd SH a oedd gan NT unrhyw ddiweddariadau ar Bwynt Gweithredu 11 o gyfarfod blaenorol Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (EQ Analytics). Bydd NT yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol am fod gwaith ar y mater hwn yn dal i fynd rhagddo. <p>Effaith Credyd Cynhwysol (CC):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd papur ar CC a'i hynt hyd yma gan Sara Ahmed (SA), nad oedd yn gallu bod yn bresennol. • Bellach, penderfynwyd gohirio cyflwyno gwasanaeth llawn CC tan fis Medi 2024. • Gofynnodd JE am eglurhad ar sut y gallai ALLau ddefnyddio data CC. Bydd SH yn datblygu hyn fel eitem bosibl i'w chynnwys ar yr agenda yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys trafodaeth yn hytrach na phapur gwybodaeth. Am y tro, dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at SA. 	<p>Cymru am ddaearyddiaethau allbwn y Cyfrifiad.</p> <p>Pwynt Gweithredu: Pwynt Gweithredu 11 o gyfarfod Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 i'w gario ymlaen</p> <p>Pwynt Gweithredu: Eitem ar yr agenda i'w thrafod ar ddefnyddio data Credyd Cynhwysol i'w chynnwys mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol.</p>
4	<p>Datblygiadau Dadansoddol yn y SYG ar gyfer Ardaloedd Is-genedlaethol</p>	
	<p>Cyflwyniad gan James Harris – Y Ganolfan Dadansoddi Is-genedlaethol, SYG</p> <p>Nod y SYG, drwy'r Ganolfan Dadansoddi Is-genedlaethol newydd, yw llywio ystod ehangach o waith dadansoddi ystadegol ar ddaearyddiaethau llai o faint yn y DU. Yn ddelfrydol, hoffai gynhyrchu ystadegau ar lefel cod post, ond mae materion datgelu sy'n ymwneud â'r data hyn yn ei hatal rhag gwneud hynny. Y nod yw cynhyrchu ystadegau ar lefel ALL, gydag ystadegau Dinas-Ranbarthau yn cael eu cynhyrchu, o leiaf.</p>	

Cyflwynodd JH restr o allbynnau Cyfrifiad 2019 ond ychwanegodd fod y datganiad ar yr Amcangyfrifon Is-genedlaethol diweddaraf o Gynhyrchiant wedi'i ohirio. Ar gyfer y datganiad ar Ansawdd Swyddi mewn Dinas-ranbarthau, dim ond rhanbarthau Bae Abertawe a Dinas Caerdydd a gynhwyswyd ar gyfer Cymru.

Bu'r Ganolfan yn ymgynghori ag ALLau yn Lloegr er mwyn nodi eu gofynion o ran data a helpu i flaenoriaethu gwaith y Ganolfan yn y dyfodol. Hefyd, gall roi cyngor i ALLau ar sut y gallant wneud eu gwaith dadansoddi eu hunain gan ddefnyddio data sydd ar gael. Gofynnodd JH am unrhyw adborth gan y rhai o oedd yn bresennol, am fod y SYG yn awyddus i wybod pa ddata sydd eu hangen ar ALLau yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan yn awyddus i fod yn rhan o brosiectau dadansoddol ar lefel is-genedlaethol. Maent yn gobeithio llunio cyfres o astudiaethau achos y gellir eu cyflwyno i ardaloedd eraill. Tynnodd JH sylw at rai enghreifftiau o waith o'r fath, e.e. gwaith ar ddigartrefedd gyda Manceinion Fwyaf. Gellir gofyn i'r Ganolfan wneud gwaith dadansoddi pwrpasol, drwy gwblhau ffurflen gais (cysylltwch â: cities@ons.gov.uk). Bydd y Ganolfan yn gwneud popeth o fewn ei gallu i helpu.

Anogir aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i gofrestru i gael briff rheolaidd y Ganolfan, sef 'Cities briefing'. Yn ogystal â chanolbwyntio ar ddaearyddiaeth 'Dinasoedd', mae'r briff hefyd yn ymdrin â daearyddiaeth is-genedlaethol eraill.

Mae'r Ganolfan yn datblygu nifer o ddangosfyrddau rhyngweithiol, gan gynnwys '[Customise my Data](#)', (Saesneg yn unig) sydd â'r nod o alluogi swyddogion polisi i ddod o hyd i'r data sydd eu hangen arnynt mewn fformat hawdd. Bydd y data hyn ar lefel ALI (neu lefel Dinas-Ranbarth os na fydd hynny'n bosibl).

Gan esbonio 'Customise my Data' ymhellach, nododd JH ei fod yn debyg iawn i NOMIS, a ddefnyddir yn ehangach. Ar hyn o bryd, mae'r SYG yn adeiladu ciwb data sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ganddi eisoes. Mae 'Customise my Data' yn adnodd sy'n eich galluogi i dynnu data o'i fewn. Esboniodd JH ei fod yn dal i gael ei ddatblygu ond, dros amser, y caiff NOMIS ei ddileu'n raddol. Ar hyn o bryd, mae'r adnodd ar gael i'r cyhoedd yng ngham Beta ac mae'n cynnwys 12 o setiau data'r SYG.

Gofynnodd LWM a fyddai data'r Cyfrifiad yn cael eu cynnwys yn 'Customise my Data', ac ychwanegodd JH eu bod yn hyderus y byddent yn cael eu cynnwys ynddo.

	<p>Nododd yr aelodau fod y gallu i gael gafael yn hawdd ar gyfraddau yn ogystal â chyfansymiau yn gallu bod yn ddefnyddiol mewn systemau o'r fath.</p> <p>Gofynnodd JE a fyddai daearyddiaethau NUTS yn cael eu cynnwys yn y gwaith a wneir gan y Ganolfan. Eglurodd JH y byddai'r rhain yn parhau i gael eu defnyddio yn y dyfodol agos. Byddai'r SYG yn argymhell bod grwpiau daearyddiaeth megis NUTS3 yn cael eu cadw am mai'r grwpiau hyn yw'r rhai a ddefnyddir gan amlaf.</p> <p>Gofynnodd JH a ddylai'r Ganolfan gynhyrchu data ar gyfer ardaloedd Bargaen Twf Cymru ac roedd yr aelodau o'r farn y byddai hyn yn fuddiol am fod timau sgiliau penodol ar gyfer pob ardal bargaen twf ar hyn o bryd.</p> <p>Hefyd, soniodd JH wrth y rhai a oedd yn bresennol am COGS (Ystadegau Cysylltiedig Agored y Llywodraeth), sef prosiect sydd â'r nod o gasglu data trawslywodraethol at ei gilydd mewn un lle.</p>	
5	MALIC 2019	
	<p>Cyflwyniad gan Nia Jones a Scott Clifford – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol, LIC</p> <p>Rhoddodd SC drosolwg o'r gwaith cefndir a wnaed ar gyfer MALIC 2019 a thrafododd at ba ddiben y gellir ac na ellir defnyddio MALIC. Nododd mai'r dangosyddion yn seiliedig ar y Cyfrifiad oedd yr unig rai na chawsant eu diweddarau ar gyfer MALIC 2019.</p> <p>Holodd AS am y cyfnod cyfeirio ar gyfer data ym maes Cyflogaeth ac a oedd y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn effeithio ar hyn. Eglurodd NJ fod y data wedi cael eu defnyddio ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 (sef y flwyddyn cyn i CC gael ei gyflwyno yng Nghymru). Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ystyried sut y gellir defnyddio CC i gymharu ardaloedd sydd ar gamau gwahanol o'r broses o'i gyflwyno.</p> <p>Gofynnodd JR sut y gallai newidiadau i'r fethodoleg effeithio ar y gallu i gymharu data â chyhoeddiadau blaenorol MALIC. Nododd NJ na ddylid cymharu graddau MALIC dros amser am na fwriedir i'r Mynegai gael ei ddehongli fel hyn.</p> <p>Gofynnodd RL a oedd y dangosydd gordewdra ymhlith plant a ddefnyddir ym maes lechyd yn seiliedig ar fynegai màs y corff (BMI). Cadarnhaodd NJ hyn gan ychwanegu bod y data a ddefnyddir yn cael eu cyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru</p>	

Trafododd NJ ganlyniadau MALIC 2019. Mae tair o'r 10 ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru ym MALIC 2014 bellach wedi symud y tu allan i'r 10 uchaf ym MALIC 2019. Mae gwaith dadansoddi newydd ar gyfer y cyhoeddiad hwn yn cynnwys disgrifiadau o'r 10 ardal fach fwyaf difreintiedig, a gwaith dadansoddi ar ardaloedd bach 'o amddifadedd dwfn'.

Mae gan MALIC 2019 adnodd rhyngweithiol gwell fel bod modd delweddu'r canlyniadau yn well, ac mae'r canllawiau sy'n ategu'r datganiad wedi'u hehangu. Mae'r canllawiau hyn bellach yn cynnwys cyngor ar ddefnyddio MALIC i dargedu adnoddau neu weithgareddau penodol.

Mae data wedi'u modelu newydd ar gyfer dangosydd y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael wedi'u cynnwys ym maes Tai ar gyfer MALIC 2019. Dyma'r tro cyntaf i ddata wedi'u modelu gael eu defnyddio ym MALIC, a chynhaliwyd trafodaethau â phedwar ALI wrth i'r dangosydd gael ei ddatblygu. Mae pwysoliad y maes tai yn y Mynegai cyffredinol wedi'i gynyddu er mwyn adlewyrchu'r gwelliant hwn.

Mae tîm MALIC wedi bod yn datblygu dangosfwrdd PowerBI rhyngweithiol sydd â'r nod o wneud y data'n fwy diddorol a chynyddu'r defnydd a wneir ohonynt. Gofynnodd NJ am adborth ar y syniadau arfaethedig gan y rhai a oedd yn bresennol.

Awgrymodd NS y dylai'r rhai a oedd yn bresennol ddychwelyd i'w ALLau a gofyn am eu barn ar y dangosfwrdd er mwyn iddynt allu ei chyfleu mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd RC o'r farn y byddai dangosfwrdd yn fwy defnyddiol na StatsCymru wrth gyflwyno agweddau penodol ar MALIC. Nododd LWM y gallai'r dangosfwrdd symleiddio'r broses o rannu data â'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â StatsCymru.

Gofynnodd NWJ a oedd MALIC yn graddio ardaloedd ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Nododd NJ, er na ellid gwneud hyn gyda data cyhoeddedig MALIC, fod y tîm yn fodlon ymdrin ag unrhyw geisiadau penodol a all fod gan ALLau.

Gofynnodd JE a oedd amseriad yr Etholiad Cyffredinol wedi effeithio ar yr ymateb i gyhoeddi MALIC 2019. Nododd SL mai ychydig iawn o ohebiaeth a gafwyd am ei fod wedi cael ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, ond nododd fod y modd y defnyddir y data dros y pum mlynedd nesaf yn bwysicach na'r ymateb uniongyrchol i'r cyhoeddiad.

Pwynt Gweithredu:

Aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i ofyn i'w hawdurdodau lleol/sefydliadau am adborth ar ddangosfwrdd rhyngweithiol arfaethedig MALIC.

6	Data Incwm Ardaloedd Bach	
	<p>Cyflwyniad gan Sean White – SYG</p> <p>Rhoddodd SW drosolwg o waith ei dîm ar Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach, a gaiff eu llunio ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Mae Ystadegau Cyllid Aelwydydd yn cael eu trawsnewid ar ôl i dechnoleg newydd ddod ar gael. Maent hefyd yn gweithio i leihau'r baich ar ymatebwyr drwy wella dulliau samplu a gwneud gwell defnydd o ddata gweinyddol.</p> <p>Gellir cyfuno Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach i lefel ALI ond ni ellir cyfrifo cyfyngau hyder ar y lefel hon oherwydd y dulliau modelu a ddefnyddir.</p> <p>Caiff yr Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach ar gyfer 2017/18 eu cyhoeddi ar 5 Mawrth ynghyd â bwletin ystadegol, mapiau a siartiau rhyngweithiol, adroddiad technegol yn ogystal â'r set ddata. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys llunio amcangyfrifon o dlodi ardaloedd bach, gwneud defnydd pellach o ddata gweinyddol a chyfuno'r Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach ac ystadegau incwm sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol (ABIS) er mwyn osgoi setiau data sy'n gorgyffwrdd.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd y SYG adroddiad ymchwil (Saesneg yn unig) ar fethodoleg bosibl ar gyfer llunio amcangyfrifon incwm ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) gan ddefnyddio data gweinyddol (data TWE a Budd-daliadau). Fodd bynnag, hyd yma nid oes fawr ddim data ar gael ychwaith ar incymau pobl hunangyflogedig. Nid yw gwaith yn debygol o gael ei ddiweddarau nes y bydd data hunangyflogaeth ar gael.</p> <p>Nododd JE fod PayCheck yn cynnig dewis amgen cystadleuol yn lle'r Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach a gaiff eu llunio gan y SYG a bod data ACEHlau yn ddefnyddiol wrth gyfuno ardaloedd lleol. Mae data PayCheck hefyd yn rhoi gwell syniad o ddosbarthiad incymau mewn ardal.</p> <p>Nododd JE nad yw'r Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach bob amser yn addas at ddibenion ALLau. Roedd consensws cyffredinol bod data ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn llai defnyddiol nac amcangyfrifon ar gyfer ACEHlau. Nododd SW y gallai symud tuag at wneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol roi mwy o hyblygrwydd wrth gynnal dadansoddiadau daearyddol.</p> <p>Gofynnodd NJ pryd y byddai amcangyfrifon incwm ar gael ar gyfer hunangyflogaeth, ond nid oedd SW yn gallu rhoi</p>	<p>Pwynt Gweithredu: Aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i gysylltu ag SW er mwyn rhoi adborth iddo ar y ffordd y maent yn defnyddio/yr hoffent ddefnyddio Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach.</p>

	<p>amcangyfrif oherwydd y gwaith saernïo data a oedd yn dal i fynd rhagddo.</p> <p>Roedd yr aelodau yn awyddus i weld y SYG yn parhau â'r gwaith datblygu, ond byddai angen i amcangyfrifon o'r fath fodloni'r gofynion cyn y gallai ALLau roi'r gorau i ddefnyddio ffynonellau amgen. Gofynnodd SW i'r rhai a oedd yn bresennol gysylltu er mwyn rhoi gwybod iddo pa ddata yr hoffent iddynt fod ar gael a sut y byddent yn eu defnyddio.</p>	
7	Amcanestyniadau Tlodi Aelwydydd	
	<p>Trafodaeth a arweiniwyd gan Nita Sparkes – CBSCNPT Roedd disgwyl i Fiona Clay-Poole (FCP) roi cyflwyniad ond anfonodd ymddiheuriadau hwyr.</p> <p>Yn ddiweddar trefnodd CBSCNPT Symposiwm ar Dlodi, lle y daeth sefydliadau amlasiantaeth at ei gilydd i rannu gwybodaeth am fynd i'r afael â thlodi drwy bolisi. Yn dilyn y symposiwm hwn, mae CBSCNPT yn ystyried ailgynllunio'r gwasanaethau a'r cymorth a gynigir ganddo ar hyn o bryd.</p> <p>Esboniodd NS fod CBSCNPT wedi comisiynu cwmni yn Llundain i lunio 'traciwr amcanestyniadau tlodi', sy'n galluogi CBSCNPT i fewnbynnu data a gweld rhagfynegiadau o dlodi i lawr at lefel stryd ac aelwyd. Mae enghreifftiau o'r data a ddefnyddir yn cynnwys data ar incwm, gwasanaethau plant, y dreth gyngor a hawlwy'r budd-daliadau.</p> <p>Mae'r traciwr yn galluogi'r ALI i weld ble y gall fod angen gwneud newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, er mwyn gallu sicrhau bod y rhai y rhagwelir y byddant yn disgyn islaw'r trothwy tlodi yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i osgoi gwneud hynny.</p> <p>Gofynnodd RS beth oedd allbwn gwirioneddol y traciwr. Esboniodd NS ei fod yn rhagamcanu'r incwm ar gyfer tŷ/stryd benodol yn seiliedig ar y data a fewnbynnwyd, ac yn nodi pa wasanaethau cymorth sydd eisoes yn bodoli y dylid eu targedu at aelwydydd penodol sy'n wynebu risg o ddisgyn islaw'r trothwy tlodi.</p> <p>Gofynnodd SH a ellid datblygu system debyg i Gymru, am fod yr aelodau wedi dangos diddordeb mawr yn y traciwr a'r defnydd y gellid ei wneud ohono. Cytunodd NS i roi dolen i'r system i LIC er mwyn iddi allu ymchwilio iddi ymhellach. Ychwanegodd NJ y byddai gan dimau polisi LIC ddiddordeb arbennig ynddi.</p>	<p>Pwynt Gweithredu: NS (neu FCP) i roi dolen i draciwr amcanestyniadau tlodi CBSCNPT i LIC i'w dosbarthu</p>

	<p>Gofynnodd NS am i unrhyw gwestiynau eraill am y traciwr amcanestyniadau tlodi gael eu cyfeirio at FCP, am ei bod wedi chwarae mwy o ran yn y gwaith o'i ddatblygu. Ymhen tua blwyddyn, pan fydd y traciwr yn fwy datblygedig, byddai cynrychiolydd o CBSCNPT yn fodlon cyflwyno eitem arall ar agenda Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ar y pwnc ar gyfer trafodaeth bellach.</p> <p>Nododd NS mai hwn fyddai ei chyfarfod olaf fel aelod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru am ei bod yn symud i swydd newydd, ond y byddai cynrychiolydd newydd o CBSCNPT yn mynychu'r cyfarfodydd yn ei lle.</p>	
8	Asesiad Ystadegau Cenedlaethol Llesiant Cymru	
	<p>Gadawodd SH, SL ac NJ yr ystafell ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda oherwydd eu hymwneud ag adroddiad Llesiant Cymru.</p> <p>Arweiniwyd y drafodaeth gan Catherine Bremner a Chris Davies – Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA)</p> <p>Esboniodd CB fod UKSA wedi dechrau cynnal asesiad o Adroddiad Llesiant Cymru yn ddiweddar, er mwyn ei ddynodi fel Ystadegau Gwladol. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i UKSA sicrhau bod y cyhoeddiad yn cyrraedd y safonau a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Hoffai CB a CD gael adborth gan y rhai a oedd yn bresennol ar y defnydd y maent yn ei wneud o Adroddiad Llesiant Cymru, er mwyn llywio eu hasesiad yn well.</p> <p>Nododd y rhai a oedd yn bresennol eu bod yn defnyddio'r adroddiad weithiau fel cymharydd ar gyfer eu data eu hunain, neu er mwyn rhoi cyd-destun cenedlaethol ond, ar y cyfan, mae gan ALLau fwy o ddiddordeb mewn ystadegau ar lefel leol. Nododd rhai ALLau nad ydynt yn ei ddefnyddio o gwbl.</p> <p>Fodd bynnag, roedd rhai cynrychiolwyr o ALLau yn cytuno y caiff yr adroddiad ei ystyried yn fanylach pan gaiff yr Asesiadau Llesiant Lleol eu hadolygu.</p> <p>Roedd rhai o'r unigolion a oedd yn bresennol yn cytuno bod yr adroddiad yn gynhwysfawr, ond bod llunwyr polisi yn fwy tebygol o fod â diddordeb ynddo na dadansoddwyr ALLau. Roeddent yn falch ei fod ar gael, a chaiff mwy o ddefnydd ei wneud ohono pan fydd cynghorau ac ALLau yn paratoi eu hadroddiadau blynyddol.</p> <p>Gofynnodd CB pa grwpiau o bobl y dylent gysylltu â nhw nesaf er mwyn trafod eu defnydd o'r adroddiad, am fod y rhan fwyaf o'r</p>	

	<p>rhai a oedd yn bresennol wedi dweud nad nhw oedd y bobl gywir i'w holi. Awgrymwyd y gallai cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar lefel genedlaethol a Rhwydwaith Gwella Cymru roi gwell adborth ar yr adroddiad.</p> <p>Ychwanegodd CD fod UKSA wedi sefydlu dolen ar ei wefan ar gyfer adborth pellach, ac y gellid anfon y ddolen hon at y rhai a oedd yn bresennol er mwyn iddynt ei throsglwyddo i gydweithwyr.</p>	<p>Pwynt Gweithredu: CB/CD i ddsbarthu dolen i ymgynghoriad ar-lein UKSA er mwyn i aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ei throsglwyddo i gydweithwyr.</p>
<p>9</p>	<p>Unrhyw fater arall</p>	
	<p>Nododd LWM mai hwn fyddai ei chyfarfod olaf cyn dechrau ei chyfnod o absenoldeb mamolaeth. Diolchodd SH i LWM am ei chyfraniadau at Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru.</p> <p>Gofynnodd SH i'r rhai a oedd yn bresennol ddefnyddio'r ffurflen adborth ar-lein a fyddai'n cael ei hanfon atynt drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod i awgrymu eitemau posibl ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol. Crynodd SH rai o'r syniadau ar gyfer eitemau yn y dyfodol a godwyd yn ystod cyfarfod heddiw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Credyd Cynhwysol – problemau wrth ddefnyddio'r data a sut i fanteisio i'r eithaf ar Stat Explore • Amcanestyniadau poblogaeth • Y wybodaeth ddiweddaraf am Daffodil Cymru • Y Traciwr Amcanestyniadau Tlodi a ddefnyddir yng Nghastell-nedd Port Talbot • Allbynnau'r Cyfrifiad ac ymgysylltu â'r gymuned <p>Gofynnodd JH a hoffai'r rhai a oedd yn bresennol glywed mwy am weithgarwch ymgysylltu mewn perthynas ag allbynnau'r Cyfrifiad. Roedd SK o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gwybod beth y gallai ALLau ei wneud yn well er mwyn helpu'r SYG gyda gweithgarwch ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r Cyfrifiad.</p> <p>Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 04/06/20 yng Nghyffordd Llandudno (gyda chyswllt fideogynadledda o Barc Cathays, Caerdydd ar gael).</p>	

Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu

Rhif	Pwynt Gweithredu	Pwy?
1	Cofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i'w hanfon drwy e-bost at JE.	Ysgrifenyddiaeth
2	JM i gadarnhau nad yw safbwynt y SYG o ran y rhestr o enwau answyddogol yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol wedi newid ac aiddosbarthu'r ymateb.	JM
3	JM i ystyried y posibilrwydd o drefnu symposiwm ar boblogaeth er mwyn parhau â'r drafodaeth ynghylch amcanestyniadau poblogaeth, gyda chymorth Data Cymru.	JM
4	Cyflwyniad rhwng DC a LIC ar y gwahaniaethau rhwng Hyb Data Agored DC a Map Data Cymru LIC i'w rhoi mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol.	DC/LIC
5	Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect i ailddatblygu Daffodil Cymru i'w rhoi mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol.	Data Cymru
6	NT i rannu awgrymiadau ynglŷn ag arferion da o ran ymgysylltu â'r gymuned, yn seiliedig ar ganfyddiadau SYG o ymarfer y Cyfrifiad. I'w ystyried ar gyfer eitem ar yr agenda yn y dyfodol.	NT (SYG)
7	NT i roi'r wybodaeth ddiweddar i Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru am ddaeyryddiaethau allbwn y Cyfrifiad.	NT (SYG)
8	Pwynt Gweithredu 11 o gyfarfod Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 i'w gario ymlaen. (NT i fynegi'r potensial i drafod EQ Analytics fel rhan o grŵp sicrhau ansawdd y Gymraeg ar gyfer Cyfrifiad 2021.)	NT (SYG)
9	Eitem ar yr agenda i'w thrafod ar ddefnyddio data Credyd Cynhwysol i'w chynnwys mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn y dyfodol.	Ysgrifenyddiaeth
10	Aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i ofyn i'w hawdurdodau lleol/sefydliadau am adborth ar ddangosfwrdd rhyngweithiol arfaethedig MALIC.	Pawb
11	Aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i gysylltu ag SW er mwyn rhoi adborth iddo ar y ffordd y maent yn defnyddio/yr hoffent ddefnyddio Amcangyfrifon o Incwm Ardaloedd Bach.	Pawb
12	NS (neu FCP) i roi dolen i draciwr amcanestyniadau tlodi CBSCNPT i LIC i'w dosbarthu.	NS/FCP
13	Dolen i ymgynghoriad ar-lein UKSA ar adroddiad Llesiant Cymru i'w dosbarthu i aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru er mwyn iddynt ei throsglwyddo i gydweithwyr.	CB/CD (UKSA)